# Rhybudd Etholiad

## Cynhelir etholiad ar gyfer un Cynghorydd Tref ar gyfer Cyngor Tref Bae Colwyn (ward Rhiw)

## Dyddiad yr Etholiad: Dydd Iau, 8 Gorffennaf 2021

### Cael papurau enwebu

1. Gellir cael papurau enwebu oddiwrth y Swyddog Canlyniadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU. Darperir y Swyddog Canlyniadau, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol dros yr ardal etholiadol a enwir, papur enwebu i'w lofnodi.

### Cyflwyno papurau enwebu

2. Rhaid cyflwyno Papurau Enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU, ar unrhyw ddydd ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn ond heb fod yn hwyrach na **4pm, ddydd Gwener, 11 Mehefin 2021.**

3. Os bydd etholiad, cynhelir y bleidlais **ddydd Iau, 8 Gorffennaf 2021**.

### Cofrestru Etholwyr

4. Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad yma gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **dydd Mawrth, 22 Mehefin 2021.** Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

### Pleidlais Post a trwy Ddirprwy

5. Rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, dydd Mercher, 23 Mehefin 2021.** Mae hyn yn cynnwys etholwyr a'u dirprwyon sy'n dymuno diwygio eu manylion ar sail barhaol.

6. Rhaid i bob cais newydd am bleidlais drwy ddirprwy gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, dydd Mercher, 30 Mehefin 2021.**

7. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio gyda deddfiad neu ganllaw gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **5pm ddydd Iau, 8 Gorffennaf 2021**. Rhaid i'r anallu corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm ddydd Mercher, 30 Mehefin 2021. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth neu coronafeirws, mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi dod i wybod na allant fynd i'r orsaf bleidleisio eu hunain ar ôl 5pm ddydd Mercher, 30 Mehefin 2021.

**Iwan Davies, Swyddog Canlyniadau**

Dyddiedig: Dydd Iau, 3 Mehefin 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU

Ffôn : 01492 576052